W.2.2257

# CAN DDWYFOL,

AR DDULL

*YMDDIDDAN*

RHWNG

# DAU BERERIN,

AG OEDD

YN TEITHIO TUA'R DWYRAIN,

SEF

*GWLAD CANAAN,*

LLE

Y rhoddir amryw gynghorion ac hyfforddiadau buddiol, i bawb a ddymunant rodio'r ffordd hono.

Gan HENRY EVAN, o Fedwellty.

*ABERYSTWYTH,*

Argraffwyd gan E. Williams, Heol y bont.

1825.

767.4 W.

# CAN, &c.

1 POB gwr, pob gwraig, pob baehgen pob perchen enaid
A ddewch chwi'n nes i wrando, er cariad Iesu Grist, [trist,
Cewch glywed rhan o ymddiddan yn gyfan gymen gân,
Fu rhyngwyf a thrafaelwr o Gymro gweddus glân.

2 Dydd da i ti'r Cymro hawddgar mae genyt beraidd Iaith,
Tu a ph'le 'rwyt yn trafaelu mi'th wela di ar dy daith,
Gad i ni'n llyn gydgerdded gwell dau nag un bob o's,
Os digwydd i un syrthio, fe'i cwyd y llall o'r ffos.

2 'Rwy'n myned tua'r dwyrain a chenyf siwrnai fawr,
Da genyf gael cydgerdded o honoch chwithau'n awr,
Mae'r ffordd i un yn unig, a minnau'n anian brudd,
A dywedyd y gwirionedd 'rwy'n glaf er's llawer dydd.

4 Attolwg p'le mae'r dolur sydd yn dy flino di,
A fyddi di cyn fwyned a maneg wrthyf fi;
Fe allai ceir cynghorion a moddion da er dy les,
A esmwytho'th friw a'th ddolur ond dweyd lle mae'r disês.

5 Nid enaint gwych nac wilment, nid olew Poticar,
Nid blodeu'r maes na llysiau na dim sydd ar y dda'r,
A all roi i mi iechyd, fy enaid bach sydd drwm;
Os y'ch chwi'r gwr yn deall, rhowch gynghor i mi'n swm.

6 Os dy enaid di sydd glwyfus, yn llawn o frathau'r Fall,
Di elli gael cynghorion ond i ti fod yn gall;
A'u herfer hwy'n wastadol, ddydd a nos yn wir,
Di gei dy iechyd etto a hyny cyn b'o hir.

7 Yn gyntaf rhaid ymprydio, a phrudd weddio ar Dduw,
Y fe sy'n abl gwneuthur y marw fyd yn fyw,
Lle 'rwyt ti gwedi'th ddamnio dan bechod buchedd wael;
Ond credu i Grist dy Brynwr mae ffafar i ti i'w gael.

8 'Nol darfod i ti ymprydio a gweddio Duw yn drist,
Cais lon'd dy ddau ddwrn chwipyn o ffydd gan Iesu Grist,
A chwart o wir 'difeirwch, a hyny yn ddioed,
Wel dyna gystal cynghor a'r goreu a ge'st ti erioed.

9 Rhaid i ti geisio eilwaith a hyny yn ddi ffael,
Cariad, ffydd, a gobaith, o'r cryfaf ellir gael,
A dodi'r rhai'n mewn llestr a elwir conscience lán,
Cyn dân o wir serchawgrwydd, a berwa hwy yn y bla'n.

10 Gad hwy yno i ferwi ddydd a nos yn rhwydd,
Nes bŷddo'r byd a'i bethau yn drewi yn dy wydd,
Llid a malais llesgedd, a balchedd, trawsedd llym,
Yn dyfod i'r wynebion, fel gweli di y scum.

11 Pan ddelych gynta' i ganfod hyn yma â llygad ffydd,
Prawf di yn wastadol, yn ddyfal nos a dydd,
Yscumio hwn o'th galon, a'i daflu chwip i ma's,
A llwy a elwir Gweddi, trwy ffydd ac union ras.

12 Cais fyrr neu lysiau amynedd da moddus yn ddibaid,
Powdra hwy a chymmysga, wel dyna'r modd sydd raid,
Cais liain gostyngeiddrwydd Crist Iesu, Duw a dyn,
A strainia'r cwbl trwyddo i'w gwppan ef ei hun.

13 'Nol darfod i ti strainio, yf dracht o hono'n llon,
Mor dwymned byth ag elli, yn nesa' i'r galon don;
Cais drwsiad braf o frethyn, y goreu sy yn y byd,
A elwir Bywyd newydd, a hyn i'th gadw'n glyd.

14 A gwisg di hwn am danat nes i ti chwysu i ma's
Lygredigaeth pechod, a gwenwnn natur gas,
Trais a thrachwant, meddwdod, godineb drwg ei ryw,
A 'studia di'n wastadol pa fodd i foli Duw.

15 Pan ddelych gynta' i 'nabod dy natur dan dy naws,
A newid dy hên arfer, a'th ddolur beth yn haws,
Rhaid i ti geisio pethau gobeithiol ag y sydd,
Rhag myned dy holl labar a'th drafel di'n ddifudd.

19 Rhaid i ti geisio powdwr a elwir dweyd yn dda,
Ac ira'th fin a'th dafod, a hyny yn ddina';
Cais di olew hefyd, ac yf ef nos a dydd,
A elwir Duwiol weithred trwy ras ac union ffydd.

17 Ac ira'th fin. a'th dafod, a'th lygaid oll yn llwyr.
Nes by'ch yn gwel'd y gwneiniaid trwy doster fore a hwyr,
Dy galon yn agored wrth gwyn y weddw wan,
A'th ddwylo di'n dra diwyd i roddi i'r tlawd ei ran.

18 Ac ymladd â'th elynion, y byd, y cnawd, a'r fall,
Os metha 'r un dy dwyllo, dy amcanu a wna'r llall;
Cais di wir arfogaeth, ymdrwsia ynddi'n dynn,
A thyna'r modd gorchfygu yr holl elynion hyn.

19 Cais wregys o wirionedd, rho am dy lwynau'n frau,
Dwyfroneg o sancteiddrwydd, wel dyna drwsiad clau,
A helm yr Iachawdwriaeth, a tharian ffydd ddidrist,
Esgidiau Efengyl heddwch, a chleddyf Ysbryd Crist.

20 Ac wedi'n saf i fynu yn enw'r Arglwydd Dduw,
A chais di Fibl sanctaidd, a darllen hwnw, clyw;
Cymer groes yr Iesu, rho ar dy ysgwyddau'n brudd,
Yn nghyfraith y Goruchaf myfyria nos a ddydd.

21 Wel dyma i ti gynghor, a chofia tra fy'ch byw,
Gweddia ar dy Brynwr, am ras a ffafar Duw,
Mae'n rhaid i minnau weithian am ben un gronyn bach,
Ymadael â'th gwmp'niaeth, a chanu i ti'n iach.

22 Duw dalo iwch am eich cynghor, mi gwela'n anian gall,
Mi brofa yn wir ei arfer, a hyny yn ddiwall,
Gweddiwch ar Dduw 'nghadw rhag rhodio llwybr cam,
A'm dygyd yn y diwedd i fynwes Abraham.

23 Ffarwel i tithau'r bachgen a Duw ro i ti ras,
I fww fel angel sanctaidd, o'r orig hyn i ma's,
Duw'th ddygo di yn y diwedd o ddyffryn dagrau trist,
I fryn o wir lawenydd, lle mae yr Arglwydd Crist.

24 Os gofyn un Physygwr, pwy roddai'r cynghor maith,
I'r dyn oedd yn trafaelu tua'r dwyrain ar ei daith,
Gwr sy'n byw yn Medwellty, yn caru'r gwir a'i blaid,
Os holir am ei enw, ceir clywed os bydd rhaid.

DIWEDD.